# CRONFA BENSIWN DYFED

## Cynllun Busnes 2023-24

Gweinyddir gan:

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

Y Gronfa ..... 2
Sut y cynhelir y Gronfa ..... 2
Llywodraethu'r Gronfa ..... 3
Y Prif Gyfrifoldebau ..... 3
Cwsmeriaid y Gronfa ..... 4
Dogfennau Polisi Allweddol ..... 5
Amcanion Busnes y Gronfa ..... 5
Buddsoddiadau ..... 6
Ystadegau Allweddol ..... 7
Cyllideb ..... 7
Blaenoriaethau ..... 8
Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed ..... 9

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn egluro sut mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn bwriadu datblygu a gwella ei gwasanaethau.

Mae'r Cynllun yn galluogi'r Gronfa i ganolbwyntio ar gyrraedd targedau cytûn ac yn helpu aelodau o'r staff i weld sut maent yn cyfrannu at lwyddiant cyffredinol Cronfa Bensiwn Dyfed.

# Y Gronfa

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn un o blith 97 o gronfeydd sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu a benodwyd yn statudol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae'r Cyngor yn gweinyddu buddion y Gronfa ac yn buddsoddi ei hasedau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn gweithredu fel y gweinydd ar gyfer cynlluniau pensiwn yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân nad ydynt wedi eu cyllido, a hynny ar gyfer Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Gronfa yn cynnwys tua 52,735 o aelodau (ar 31 Mawrth 2022) o blith mwy na 49 o awdurdodau cyflogi.

# Sut y cynhelir y Gronfa

Caiff yr holl faterion pensiwn eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn, ac mae ei aelodau'n gweithredu fel 'lled-ymddiriedolwyr'.

Mae'r Pwyllgor yn dirprwyo'r gwaith o gynnal y Gronfa Bensiwn o ddydd i ddydd i'r Swyddog Adran 151 ac i'r timau Gweinyddu a Buddsoddi Pensiynau.

Mae'r timau Gweinyddu a Buddsoddi Pensiynau yn gyfrifol am bob agwedd ar y Gronfa, yn cynnwys gweinyddu, cyfrifyddu, buddsoddi a llywodraethu.

Sefydlwyd y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 1 Ebrill 2015 yn unol â gofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae ganddo rôl oruchwylio/gynorthwyo gyda'r Awdurdod Gweinyddu o ran sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion a sicrhau bod y Gronfa yn cael ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon (gweler isod).

Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n dryloyw, yn effeithlon ac yn gefnogol i'r holl randdeiliaid

**Y Pwyllgor Pensiwn**

**Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**

Y Cynghorydd Elwyn Williams

**Aelodau'r Pwyllgor**


Y Cynghorydd Dai Thomas

Y Cynghorydd Rob James

Y Cynghorydd Denise Owen (Aelod Dirprwyol o'r Pwyllgor)

# Llywodraethu'r Gronfa

Amlygir y berthynas rhwng Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a rheoli gweithredol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin fel a ganlyn. Nodir manylion y modd y llywodraethir y Gronfa yn y **Polisi Llywodraethu.**




- Mae'r ymgynghorydd buddsoddi annibynnol yn cynghori'r Pwyllgor ar bob agwedd ar reoli buddsoddiadau, mewn cyfarfodydd bob chwarter a chyfarfodydd ad hoc.
- Mae’r Ceidwad (Northern Trust) yn gyfrifol am gadw asedau buddsoddi’r Gronfa’n ddiogel, yn trefnu setlo pryniannau a gwerthiannau, ac yn casglu incwm y buddsoddiadau a ddelir.
- Mae’r Actiwari (Mercer) yn prisio’r gronfa, sy’n ofynnol yn statudol, gan gynnwys pennu cyfraddau cyfrannu’r cyflogwr, a llunio atodlenni IAS 19 a chyngor actiwaraidd cyffredinol arall.
- Mae'r cwmni rheoli perfformiad yn adolygu perfformiad y rheolwyr buddsoddi mewn perthynas â meincnodau y cytunwyd arnynt.

# Y Prif Gyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau gweinyddu pensiynau yn cynnwys cyfrifo a thalu buddion. Sicrhau ar y cyd â'r holl randdalwyr bod y gronfa ddata ar gyfer yr aelodau yn gwbl gywir.
- Gweithredu'r strategaeth gyllido i sicrhau bod asedau'r Gronfa yn ddigonol i ddiwallu'r rhwymedigaethau pensiwn.
- Buddsoddi asedau'r gronfa, gweithredu'r strategaeth fuddsoddi, a rheoli rheolwyr buddsoddiad allanol.
- Rheoli asedau'n fewnol a hybu buddsoddi cyfrifol.
- Diogelu a chyfrifyddu asedau'r gronfa.
- Paratoi cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Gronfa.
- Darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch materion pensiwn i gyflogwyr a phobl eraill.

**Prif amcan y Gronfa**

Datblygu ein gwasanaethau'n barhaus drwy geisio:


- Darparu gofal cwsmeriaid rhagorol
- Rhoi cymorth i aelodau o'r staff a'u datblygu
- Sicrhau bod yr asedau'n diwallu rhwymedigaethau'r cynllun
- Lleihau'r risg bod cyfradd gyfrannu'r cyflogwr yn anwadal

# Cwsmeriaid y Gronfa

Aelodaeth y Gronfa

Rhennir Aelodau'r Gronfa yn bedwar categori. Mae'r tabl isod yn dangos aelodaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2022.

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol (Cyfranwyr) | 18,643 |
| Pensiynwyr | 15,342 |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 16,214 |
| Ymadawyr heb benderfynu | 2,536 |
| **Cyfanswm Aelodaeth** | **52,735** |




**Cyflogwyr Aelodau'r Cynllun**

Mae'r Gronfa'n dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan ei chyflogwyr er mwyn rhoi a chynnal gwasanaeth effeithiol i'r aelodau. Roedd gan Gronfa Bensiwn Dyfed fwy na 49 o awdurdodau cyflogi yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2022.

**Cyrff Rheoleiddio**

Ymhlith y prif gyrff y mae'r Gronfa'n ymgysylltu â hwy y mae:

- Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau – y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Bwrdd Cynghori'r Cynllun

## Dogfennau Polisi Allweddol

Mae dogfennau polisi allweddol yr hoffai'r darllenydd gyfeirio atynt o bosibl ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed (**www.cronfabensiwndyfed.org.uk**):

- Y Strategaeth Weinyddu a'r Safonau Gwasanaeth
- Siarter Cwsmeriaid
- Datganiad Strategaeth Ariannu
- Datganiad Strategaeth Fuddsoddi
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Datganiad Polisi Cyfathrebu
- Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu
- Datganiad y Polisi Llywodraethu


## Amcanion Busnes y Gronfa

1. Sicrhau y rheolir ac y llywodraethir Cronfa Bensiwn Dyfed yn effeithiol, a hynny mewn modd sy'n hybu gwelliant parhaus drwy gael mwy o werth am yr arian, gofalu yr hyrwyddir gwasanaeth cwsmeriaid gwych, a sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion o ran rheoleiddio a'r arferion gorau.
2. Sicrhau bod holl faterion ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu gweinyddu, eu cyfrifyddu, a'u cyflwyno yn y modd priodol.
3. Recriwtio, hyfforddi, meithrin, a chadw gafael ar aelodau staff cryf eu cymhelliant sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol o ran proffesiynoldeb, rheoli, a rhoi sylw i'r cwsmeriaid.
4. Bod yn esiampl dda
   a chydnabyddedig o'r arferion gorau ymysg Cronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chael ein cydnabod gan ein cwsmeriaid am ddarparu gwasanaeth rhagorol.
5. Sefydlu meincnod dyrannu asedau strategol, y disgwylir iddo roi bod i'r enillion gofynnol ar fuddsoddiadau yn y tymor hir, gan dderbyn lefel y risg sydd ynghlwm wrth wneud hynny.
6. Sicrhau bod asedau'r Gronfa yn cyfateb i'w rhwymedigaethau neu'n fwy na'r rheiny, a thrwy hynny osgoi neu leihau anwadalwch cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr.
7. Darparu gwasanaeth gweinyddu buddion sy'n effeithiol, yn ddarbodus ac yn hwylus i'r cwsmeriaid, ac sy'n sicrhau:
   - Bod buddion y cynllun yn cael eu cyfrif a'u talu'n gywir ac yn brydlon;
   - Bod cofnodion holl aelodau'r Gronfa yn cael eu cynnal a'u cadw'n fanwl gywir; a
   - Bod y cyfathrebu sy'n digwydd ag aelodau'r Gronfa a'r cyrff cyflogi yn effeithiol, bod materion yn cael eu hegluro'n deg iddynt, a'u bod yn cael cymorth effeithiol.

# Buddsoddiadau

Mae amcanion pefformio y Gronfa'n cael eu crynhoi yn ei meincnod strategol. Mae'r darluniadau canlynol yn dangos strategaeth fuddsoddi a meincnodau'r Gronfa.

| Dosbarth o Asedau | Meincnod (%) |
|---|---|
| Ecwitïau | 65.0% |
| Incwm Sefydlog | 10.0% |
| Eiddo | 15.0% |
| Seilwaith | 5.0% |
| Asedau amgen | 5.0% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** |




Caiff yr ymagwedd at fuddsoddi asedau'r Gronfa ei seilio ar y polisïau a'r arferion a bennir yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Datganiad y Strategaeth Gyllido a'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol.

Mae gan y Gronfa ystod o reolwyr, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac ymgynghorwyr arbenigol i gynnal yr amcanion buddsoddi a nodir yn ei Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Mae'r rheolaeth fewnol yn rhoi cyngor am reoli buddsoddiadau, hyrwyddo'r arferion gorau, a chymryd camau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Mae'r arferion gorau'n ymwneud â:

- Egwyddorion Myners
- Safonau proffesiynol a safonau'r diwydiant
- Sylwadau, codau, ac argymhellion Swyddfa Archwilio a chyrff proffesiynol eraill
- Rheoliadau rheoli buddsoddiadau
- Safonau cyfrifyddu
- Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Y brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phensiynau

Partneriaeth Pensiwn Cymru Wales Pension Partnership

BlackRock

Schroders

Partners Group
Passion for Alternative Investments

## Ystadegau Allweddol

Mae'r Gronfa wedi'i hariannu dros 100% fel y nodwyd yn y prisiad ar 31 Mawrth 2022

Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr 19.8%

Yr Enillion ar Fuddsoddiadau - 6.2% yn 2021/22

Gwerth y Gronfa ar y Farchnad - £3,237 miliwn ar 31 Mawrth 2022

## Cyllideb

| **Ebrill 2023 – Mawrth 2024** | **Cyllideb o £000** |
|---|---|
| Pensiynau Taladwy | 92,432 |
| Cyfandaliad, Buddion Marwolaeth, Trosglwyddiadau Allan | 20,170 |
| Ffioedd Gweinyddu | 881 |
| Treuliau Rheoli Buddsoddiadau | 7,950 |
| Adennill Costau Canolog | 1,380 |
| **Gwariant** | **122,813** |
| Cyfraniadau'r Gweithiwr | 25,577 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 69,522 |
| Incwm ar Fuddsoddiadau | 24,214 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 3,500 |
| **Incwm** | **122,813** |

# Blaenoriaethau

| Pwnc Parhaus | Y Brif Dasg |
|---|---|
| Datblygiadau o ran y Cynllun | Rhoi gwelliannau ar waith i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o ganlyniad i ddeddfwriaeth yn newid. |
| Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor | Rhoi hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor ynghylch materion penodol cyn bod penderfyniadau perthnasol yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor. |
| Adolygu ac adnewyddu dogfennau polisi allweddol | Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau a chyhoeddi dogfennau'n ffurfiol e.e. Polisi Llywodraethu, Strategaeth Gyfathrebu ac ati. |
| Adolygiadau Rheolwr Buddsoddi | Gallai adolygu perfformiad y rheolwyr presennol neu ddatblygiadau newydd yn y farchnad yn barhaus ysgogi adolygu buddsoddiadau'r Gronfa'n rhannol neu'n llawn. |
| Datganiad Strategaeth Fuddsoddi / Datganiad Strategaeth Gyllido | Gweithredu unrhyw newidiadau yn sgil datblygiadau o ran y cynllun ac adolygiadau o ran y strategaeth fuddsoddi. |
| Cysoniad Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) | Cwblhau cysoni data aelodau â'r hyn a gofnodwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas ag aelodaeth a gontractiwyd allan. |
| Fy Mhensiwn Ar-lein | Parhau i hyrwyddo'r gwasanaeth i aelodau. |
| i-Connect | Gweithredu system cyfnewid data i-Connect i lanlwytho a gwella trosglwyddo data ar gyfer cyflogwyr sy'n dymuno trosglwyddo data'n electronig. |
| Cofrestru Awtomatig | Sicrhau y cydymffurfir â chyflwyno cofrestru awtomatig yn unol â gofyniad y Ddeddf Pensiynau. |
| Gwella mynediad at wybodaeth bersonol | Gwella cyfathrebu yn unol â'r arferion gorau a diwallu anghenion ein haelodau a'n cyflogwyr drwy'r canlynol:<br>• datblygu a diweddaru gwefan y Gronfa<br>• adolygu'r taflenni ffeithiau presennol a'r llythyrau er mwyn gwella hwylustod darllen. |
| Parhau i ddatblygu tîm sy'n perfformio'n dda | Cael tîm o staff cryf ei gymhelliant sy'n meddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol o ran proffesiynoldeb, rheoli, a rhoi sylw i'r cwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol. |
| Adolygu'r holl Weithdrefnau Gweinyddu | Pennu lle y gellir mabwysiadu gweithdrefnau a phrosesau mwy effeithiol o ran hoelio sylw ar gwsmeriaid. |
| Parhau i gynnal sioeau teithiol /seminarau rheolaidd | Gwella'r cyfathrebu sy'n digwydd ag aelodau'r Gronfa. |
| Datblygu cydweithio â Chronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol eraill | Asesu'r cyfleoedd i gydweithio ymhellach. |
| Y Bwrdd Pensiwn | Cydgysylltu a darparu cymorth parhaus i'r Bwrdd Pensiwn. |
| Partneriaeth Pensiwn Cymru - Awdurdod Cynnal | Parhau i ddarparu cymorth Awdurdod Cynnal i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. |
| Buddsoddiadau Carbon Isel / Di-garbon | Parhau i adolygu ôl troed carbon y Gronfa, gan gynnwys nodi rhagor o gyfleoedd buddsoddi carbon isel. |

| **Datblygiadau/Pwnc Newydd** | **Y Brif Dasg** |
|---|---|
| Hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor | Darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y pwyllgor. |
| Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Newydd y Bwrdd Pensiwn Lleol | Darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y bwrdd. |
| Gwasanaethau Ceidwad | Adolygu'r contract. |
| Dyraniad asedau strategol | Adolygu dyraniad asedau strategol y Gronfa. |
| Dyfarniad McCloud | Pan fydd eglurder rheoleiddiol yn cael ei dderbyn, bydd cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu i weithredu newidiadau sy'n deillio o'r dyfarniad. |
| Ansawdd Data | Sicrhau bod y sgorau Ansawdd Data mewn perthynas â data cyffredin a data sy'n benodol i'r cynllun a gyflwynir i'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn cynyddu'n flynyddol. |
| Prisiad Actiwaraidd | Gweithredu canlyniadau'r prisiad bob tair blynedd a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022. |

## Cysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed

| **Gweinyddu Pensiwn** | **Buddsoddiadau Pensiwn a Llywodraethu** |
|---|---|
| Cronfa Bensiwn Dyfed<br>Adeilad 2<br>Parc Dewi Sant<br>Caerfyrddin<br>SA31 3HB | Cronfa Bensiwn Dyfed<br>Neuadd y Sir<br>Caerfyrddin<br>SA31 1JP |
| pensiynau@sirgar.gov.uk | |
| www.cronfabensiwndyfed.org.uk | |